**Hawdd ei Ddeall**

North Wales Together
Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
*Seamless services for people with Learning Disabilities*
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*

# Strategaeth Cyflogaeth â Chymorth ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu yng Ngogledd Cymru.

Lluniwyd y ddogfen hon gan **Raglen Trawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru Gyda'i Gilydd**. Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o "Strategaeth Cyflogaeth â Chymorth Gogledd Cymru"

**Ebrill 2024**

made with photosymbols®

**Wedi'i wneud â lluniau o Photosymbols: www.photosymbols.com**

# Cynnwys

Rhagarweiniad........................................................tudalen 2

Pam fod angen y cynllun hwn..................................tudalen 4

Beth ddywedodd pobl ag anableddau
dysgu wrthym ni.......................................................tudalen 6

Sut fydd y strategaeth hon yn helpu? .........................tudalen 9

Swyddi sy'n rhan o Ddull Cyflogaeth
â Chymorth Gogledd Cymru.....................................tudalen 12

Beth sydd angen ei wneud yn ein barn ni...................tudalen 17

Geiriau Anodd.........................................................tudalen 21

# Rhagarweiniad



Dyma ddogfen hawdd ei ddeall. Efallai y bydd arnoch chi angen cymorth i'w darllen serch hynny. Gofynnwch i rywun rydych yn eu hadnabod i'ch helpu chi.



Efallai y bydd y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall.

Gallwch weld beth mae'r geiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 22**.

made with photosymbols®

Gwnaed y ddogfen hon yn ddogfen hawdd ei deall gyda ***Photosymbols***.



Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall sy'n **crynhoi'r** **Strategaeth Cyflogaeth â Chymorth ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu yng Ngogledd Cymru**.

# Rhagarweiniad

**Mae Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd** yn dîm o bobl sy'n helpu pobl ag anableddau dysgu i leisio eu barn a newid pethau.



Mae tîm Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd yn gweithio i'r chwech Awdurdod Lleol, **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** a'r maes anableddau dysgu'n gyffredinol.



Fe fuon **ni** i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i lunio'r cynllun yma.




Ein bwriad yw helpu mwy o bobl ag **anableddau dysgu** yng ngogledd Cymru i ddod o hyd i waith a chael yr un dewisiadau â phawb arall.

Mae **anabledd dysgu** yn effeithio ar eich gallu i feddwl, deall a rhesymu. Mae'n gallu ei gwneud hi'n anodd gwneud pethau o ddydd i ddydd, fel gwaith tŷ, cymdeithasu neu reoli arian. Mae anabledd dysgu'n effeithio ar rywun gydol eu hoes.
Mae pobl ag **anableddau dysgu** yn dueddol o gymryd mwy o amser i ddysgu pethau. Efallai y bydd arnyn nhw angen cefnogaeth i ddatblygu sgiliau newydd, deall gwybodaeth gymhleth ac ymwneud â phobl eraill.




Wrth sôn am waith, rydyn ni'n golygu gwaith am gyflog.

Mae'n golygu bod rhywun ag anabledd dysgu'n cael yr un faint o arian â phawb arall sy'n gwneud yr un gwaith.




Yn cael eu trin yr un fath â phobl eraill sy'n gweithio yn yr un lle.



Yn mwynhau eu gwaith ac yn cael croeso gan eu cydweithwyr.

## Pam fod angen y cynllun hwn?




Mae pobl ag anableddau dysgu wedi dweud wrthym eu bod yn dymuno gweithio a chael cyflog am hynny.

Dim ond 5% o bobl ag anableddau dysgu sydd mewn gwaith ac yn ennill cyflog.



Mae'n broblem fawr yn y Deyrnas Gyfunol dod o hyd i bobl addas i lenwi swyddi gwag.
Mae'r swyddi hyn yn rhai y gall rhywun ag anabledd dysgu eu cyflawni.



Mae'r **strategaeth** yn dangos fod y cymorth a'r gefnogaeth iawn yn galluogi pobl ag anableddau dysgu i weithio yn y swyddi yma, a bod cyflogwyr yn hoffi iddynt wneud hynny.




Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau a'r gefnogaeth iawn i helpu pobl ag anableddau dysgu i gael gwaith yn brin yng ngogledd Cymru.

Dydi hynny ddim yn iawn ac mae'n rhaid i bethau newid.



Bydd ein strategaeth yn ceisio helpu pobl ag anableddau dysgu sydd eisiau bod mewn swydd am gyflog i wneud rhywbeth y maen nhw yn ei fwynhau ac yn gallu ei wneud.

## Beth ddywedodd pobl ag anableddau dysgu



Fe fuon ni'n siarad â phobl ag anableddau dysgu ynglŷn â chael gwaith am gyflog.

Yn ôl beth ddywedon nhw, rydyn ni wedi eu rhannu'n bedwar o grwpiau.




**Sef:**

- Cefnogaeth.
- Cymorth gyda gwaith a budd-daliadau.
- Disgwyliadau isel a gobeithion prin am y dyfodol.
- Agweddau cyflogwyr a dulliau recriwtio.





### Cefnogaeth

Fe ddywedodd pobl wrthym sut beth fyddai cefnogaeth dda i ddod o hyd i waith am gyflog.

Dyma ddywedon nhw:

- Dylai'r gefnogaeth fod wedi'i haddasu ar gyfer pob unigolyn.
- Dylai pobl sy'n ein helpu fod wedi gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu o'r blaen.
- Mae angen iddyn nhw ymddiried mewn pobl a'r hyn y gallan nhw ei wneud.
- Mae angen iddyn nhw fod ar ochr y bobl y maen nhw'n gweithio gyda nhw a gwybod am eu hamgylchiadau.




Roedd llawer o bobl yn dymuno cael hyfforddwr swyddi arbenigol i weithio gyda nhw a'u teuluoedd neu rwydweithiau cymorth.



Dywedodd pobl wrthym eu bod eisiau cefnogaeth i ddod o hyd i swydd, cael y swydd, dysgu amdani a'i chadw.

Roedden nhw eisiau i rhywun ddweud wrth gyflogwyr

- Beth y gallan nhw ei wneud!
- Y ffordd orau o weithio gyda nhw.
- Beth sydd ganddyn nhw i'w gynnig.




Dywedodd pobl hefyd eu bod eisiau cymorth gyda

- Dod o hyd i swyddi y gallan nhw wneud cais amdanyn nhw.
- Gwneud cais am swyddi.
- Cyfweliadau.



Os bydden nhw'n dod o hyd i swydd, dywedodd pobl eu bod eisiau cymorth yn y gweithle er mwyn:

- Dysgu am y swydd.
- Cael eu derbyn yn y gweithl.
- **Cymdeithasu.**
- A symud ymlaen yn eu gyrfaoedd.




Fe ddywedon nhw fod angen i'r gefnogaeth fod yn hirdymor rhag ofn fod **anawsterau** yn codi.



**Gweithio a budd-daliadau lles**

Dywedodd pobl wrthym ni ei bod yn bwysig:

- Gwybod ble i droi am gyngor.
- Ymddiried yn y bobl hynny sy'n rhoi cyngor.
- Cael eu cynghori mewn ffordd y maen nhw'n ei ddeall.




**Disgwyliadau isel a gobeithion prin am y dyfodol.**

- Dywedodd pobl y dylai fod ganddyn nhw hawl i roi cynnig ar weithio am gyflog ac y dylai fod mwy o ddewisiadau iddyn nhw na gwaith gwirfoddol yn unig.
- Fe ddywedon nhw y dylai'r bobl o'u cwmpas ymddiried ynddyn nhw a'r hyn y maen nhw'n gallu ei wneud a'i gyflawni.



- Dylai gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth eraill siarad â nhw ynglŷn â gwaith am gyflog.
- A'u helpu i benderfynu ai cael swydd yw'r peth iawn iddyn nhw.

## Agweddau cyflogwyr a dulliau recriwtio



Dywedodd pobl wrthym ni:

- Bod angen i gyflogwyr wybod pa gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw hefyd.




Dylai cyflogwyr mawr fel awdurdodau lleol sicrhau bod eu hysbysebion swyddi, swydd-ddisgrifiadau a ffurflenni cais yn Hawdd eu Deall.



Nid yw pawb yn gallu mynd ar-lein ac mae gwefannau awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn anodd eu deall.

## Sut fydd y strategaeth hon yn helpu?




Gweledigaeth bennaf y strategaeth yw bod y chwech o Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno gwasanaeth newydd sbon i gefnogi pobl ym myd gwaith.

Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
North Wales Together
Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu
Seamless services for people with Learning Disabilities

Dylai Tîm Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd eu helpu i wneud hynny.



Nod y dull newydd yma o gefnogi pobl ym myd gwaith yw mynd i'r afael â'r problemau rydym wedi'u canfod a'u rhestru yn y cynllun hwn, a rhoi gwell cyfle i bobl ag anableddau dysgu ddod o hyd i swyddi am gyflog.




Dylid rhoi'r dull hwn ar waith ymhob gwasanaeth gwaith cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu yng ngogledd Cymru.

Fel bod gan pawb sydd ag anableddau dysgu sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol yng



ngogledd Cymru yn cael yr un cyfle i gael gwaith am gyflog

Dylai pob person ifanc ag anabledd dysgu mewn ysgolion uwchradd arbenigol gael cymorth hefyd.

Fel bod y dewis ganddyn nhw i ddod o hyd i waith am gyflog ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg.




Dylai dau awdurdod lleol weithio gyda'i gilydd fel partneriaid i roi'r cynllun ar waith a rhannu dysgu ac adnoddau.




Bydd nifer o bobl sy'n dal gwahanol swyddi yn rhan o' wneud yn siŵr bod y **dull** hwn yn gweithio'n dda ac yn ôl y bwriad.

## **Swyddi** sy'n rhan o Ddull Cyflogaeth â Chymorth Gogledd Cymru.





**Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd**

Nhw fydd yn gyfrifol am drefnu popeth.

Nhw fydd yn talu am bopeth ac yn rhoi'r dull newydd ar waith.

Fe fyddan nhw'n gwneud yn siŵr fod pethau'n mynd yn dda ac yn helpu yn ôl yr angen.



**Uwch-reolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Nhw sy'n rheoli timau gwaith cymdeithasol yr awdurdodau lleol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Nhw sy'n gyfrifol am lunio'r cynllun hirdymor ar gyfer newid y gwasanaeth.

A gwneud yn siŵr bod y timau gwaith cymdeithasol yn gwneud eu gwaith yn dda.

## Timau Gwaith Cymdeithasol




Eu gwaith nhw ydi siarad gyda phobl a'u teuluoedd a'u helpu i benderfynu a fyddai cael swydd am gyflog yn gallu gwella eu hiechyd a'u lles.

Maen nhw'n rhoi pobl a'u teuluoedd mewn cysylltiad â'r cydlynydd llwybrau cyflogaeth.

Maen nhw'n cynnig y gofal a'r cymorth y mae pobl eu hangen weithiau i ddod o hyd i swydd.

## Cydlynydd Llwybrau Cyflogaeth




Maen nhw'n gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol. Maen nhw'n gweithio mewn dau awdurdod lleol.

Nhw ydi'r prif berson y mae angen i dimau gwaith cymdeithasol pobl, a'u teuluoedd/gofalwyr gysylltu â nhw ynglŷn â materion gwaith.





Eu gwaith nhw ydi helpu pobl i godi eu huchelgeisiau, dod o hyd i'r gwasanaethau iawn yn lleol a dal ati i symud yn eu blaenau.



Maen nhw'n rhoi gwybod i'r gweithwyr cymdeithasol sut mae pobl yn dod yn eu blaenau.




Os nad yw'r dewisiadau iawn ar gael yn lleol, maen nhw'n rhoi pobl mewn cysylltiad â'r gwasanaeth cyflogaeth â chymorth/hyfforddiant arbenigol yn lleol.




**Gwasanaeth cyflogaeth â chymorth/ hyfforddiant swyddi arbenigol.**

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyflogaeth â chymorth / hyfforddiant swyddi arbenigol i helpu pobl ddod o hyd i swydd, cael y swydd, dysgu amdani a'i chadw.

Maen nhw'n cael atgyfeiriadau gan y Cydlynydd Llwybrau Cyflogaeth.



Maen nhw'n gweithio gyda chyflogwyr lleol i'w helpu i gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu.




Maen nhw'n helpu pobl i ddeall sut y bydd gweithio'n effeithio ar eu budd-daliadau.



Pan ddaw rhywun o hyd i swydd, maen nhw'n helpu'r person hwnnw i wneud y swydd yn dda a helpu'r cyflogwr i gefnogi'r person.



Maen nhw'n cadw mewn cysylltiad rhag ofn y bydd unrhyw drafferthion yn codi.



Maen nhw'n gallu helpu pobl i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd.



**Cefnogwyr Anableddau Dysgu**

Maen nhw'n gweithio i'r gwasanaeth cyflogaeth â chymorth.

Eu gwaith nhw ydi defnyddio eu profiadau eu hunain i ddangos yr holl bethau da am gael swydd.

Efallai bod rhai ohonyn nhw'n bobl ag anableddau dysgu, ac eraill yn rhieni neu'n ofalwyr.

## Beth sydd angen ei wneud yn ein barn ni

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru wybod fod pobl ifanc ag anableddau dysgu mewn mwy o berygl o



- Beidio â chael addysg
- Peidio â chael swydd
- Peidio â chael hyfforddiant



Mae angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o gymorth ac arian i atal hyn rhag digwydd.



Gwneud yn siŵr bod y cymorth a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu'n gweithio'n arbennig o dda ac yn cynnig y gefnogaeth orau bosib.




Gwneud yn siŵr y gall pobl gael cymorth arbenigol er mwyn dod i ddeall beth sy'n digwydd i'w budd-daliadau pan maen nhw'n cael swydd am gyflog.

Department for Work & Pensions

Gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac asiantaethau eraill i'w cael nhw i ddarparu gwybodaeth am weithio a budd-daliadau ar ffurf Hawdd ei Ddeall.




Edrych ar sut y gallai'r rheolau ynglŷn â thalu am ofal ei gwneud yn anodd i bobl gael y swyddi maen nhw eu heisiau.



Rhannu straeon am bobl ag anableddau dysgu sydd wedi llwyddo i gael swyddi am gyflog, er mwyn dangos i bobl a'u teuluoedd / gofalwyr yr holl bethau da am fod mewn gwaith.



Gwneud yn siŵr bod helpu pobl i ddod o hyd i waith yn rhan o'r hyn y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ei gynnig i bobl ag anableddau dysgu.




Ei gwneud yn bwysig iawn i'r gwasanaethau hyn helpu pobl i ddod o hyd i waith, gan ddilyn rheolau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).



Creu swydd cydlynydd cyflogaeth i helpu'r timau gwaith cymdeithasol wneud y newidiadau angenrheidiol a dysgu o arferion da.




Gwneud gwaith ymchwil a chael cymorth gan **arbenigwyr** er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau dydd a gwasanaethau gwaith yr awdurdodau lleol yn helpu pobl i symud yn eu blaenau a dod o hyd i waith os mai dyna maen nhw ei eisiau.




Gweithio gyda Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd a'r awdurdodau lleol i weld sut y galla gwneud addasiadau rhesymol eu helpu i gynnig mwy o swyddi i bobl ag anableddau dysgu.

A sut y galla gwasanaethau hyfforddi ar gyfer swyddi helpu hefyd



Dod o hyd i ffyrdd newydd o helpu pobl ag anableddau dysgu a helpu awdurdodau lleol i gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu.



Gweld sut y gall sôn wrth bobl am werth cymdeithasol helpu pobl ag anableddau dysgu  ddod o hyd i swyddi, drwy annog darparwyr i gynnig lleoliadau gwaith neu gyfnodau profi.



**Mae hybu gwerth cymdeithasol** yn golygu gwneud yn siŵr, pan fyddwn ni'n prynu gwasanaethau, ein bod yn meddwl am fwy na'r gost yn unig, ein bod yn meddwl am sut maen nhw'n gwneud bywyd yn well i bobl a'r amgylchedd.



Annog yr holl awdurdodau lleol i ddechrau defnyddio'r dull cyflogaeth â chymorth newydd yma.




Cael mwy o arian o **Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Gogledd Cymru** i wneud yn siŵr bod y cynllun hwn yn gweithio ledled gogledd Cymru, gyda chymorth tîm Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd.

## Geiriau Anodd

### Ni

Ni ydi Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, pob un o'r chwech o awdurdod lleol a phobl sy'n gweithio ym maes anableddau dysgu.

### Crynhoi

Mae crynhoi dogfen yn golygu ei gwneud hi'n fyrrach. Dydi'r fersiwn cryno ddim yn cynnwys yr holl wybodaeth, dim ond digon i roi syniad am beth mae'r ddogfen fawr yn sôn.

### Strategaeth

Mae strategaeth yn gynllun ar gyfer gwneud pethau dros gyfnod o amser.

# Geiriau Anodd

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
Dyma'r bobl sy'n rhedeg ein gwasanaethau iechyd, fel meddygon ac ysbytai yng ngogledd Cymru. Mae rhai pobl yn eu galw nhw'n Betsi weithiau.

**Cymdeithasu**
Gwneud pethau gyda phobl eraill, fel mynd allan i weld ffrindiau.

**Anawsterau**
Pethau sydd ychydig yn anodd eu gwneud y byddwch chi angen cymorth i'w datrys.

**Dull**
Dyma beth rydyn ni'n galw syniad neu gynllun i bobl eraill ei ddilyn a'i gopïo.

**Arbenigwyr**
Rhywun sy'n gwybod llawer am y pethau maen nhw'n siarad amdanyn nhw neu'r gwaith maen nhw'n ei wneud.

**Hybu gwerth cymdeithasol**
Mae hyn yn golygu gwybod y gall rhywun neu rywbeth newid pethau er gwell ym mywydau pobl neu'r gymuned y maen nhw'n byw ynddi.

**Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Gogledd Cymru**
Dyma enw cronfa Llywodraeth Cymru sy'n rhoi arian i ni. Rydyn ni weithiau'n galw'r gronfa'n RIF.

PHOTO SYMBOLS®
Licence Number 690498011191

made with photosymbols®